# Gwaith hyfryd iawn a melys yw

Joseph Parry, 1841-1903

Moliant




**Gwaith hyfryd iawn a melys yw
Moliannu d'enw di, O Dduw;
Sôn am dy gariad fore glas,
A'r nos am wirioneddau gras.**

**Melys yw dydd y Saboth llon,
Na flined gofal byd fy mron,
Ond boed fy nghalon i mewn hwyl
Fel telyn Dafydd ar yr wyl.**

**Yn Nuw fy nghalon lawenha,
Bendithio'i waith a'i air a wna;
Mor hardd yw gwaith dy ras, O Dduw,
A'th gyngor di, mor ddwfwn yw.**

**Mae gwir lawenydd ger dy fron
Yn ffrydiau pur i lonni 'mron;
Ond mi gaf lawn ogoniant fry
Pan buro gras fy nghalon i.**

Isaac Watts